Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

# Gwaed Ifanc

Cynllun rhoi gwaed ar gyfer ysgolion
a cholegau

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cwestiynau Ceffredin ynghylch rhoi gwaed | 5 |
| Helpwch i frwydro yn erbyn canser y gwaed | 9 |
| Deunydd templed mewnrwyd | 11 |
| Deunydd gwefan | 13 |
| Deunydd templed e-fwletin ar gyfer rhwydweithiau | 15 |
| Deunydd templed postiadau cyfryngau cymdeithasol | 17 |
| Syniadau am gynnwys cyfryngau cymdeithasol | 20 |
| Gynnal eich sesiwn rhoi gwaed eich hun | 23 |

# Cyflwyniad

## Yn galw ar ysgolion a cholegau ledled Cymru: mae angen eich help arnom i achub bywydau.

Gallai fod angen rhodd gwaed, platennau neu fêr esgyrn ar unrhyw un ar unrhyw adeg yn eu bywyd. Ein gwaith ni yw sicrhau bod y rhoddion amhrisiadwy hynny ar gael i'r rhai sydd eu hangen. Ond ni allwn wneud hyn heboch chi.

Mae angen 350 o roddion y dydd ar ysbytai yng Nghymru i ateb y galw am drallwysiadau gwaed a mêr esgyrn. Rydym yn casglu tua 100,000 o roddion gwaed bob blwyddyn gan tua 70,000 o roddwyr gwirfoddol. Mae hynny'n orchwyl enfawr, ond bydd angen mwy arnom bob amser.

Felly mae angen i ni hefyd recriwtio mwy o roddwyr bob blwyddyn - 11,000 yn fwy, i fod yn fanwl gywir.

## Dyna sut y gallwch chi helpu.

Mae angen i ysgolion a cholegau ledled Cymru chwarae eu rhan i helpu i achub bywydau. Gallwch wneud hynny drwy weithio gyda ni i ledaenu’r gair ynghylch pam mae rhoi gwaed, platennau a mêr esgyrn, ac annog mwy o bobl i roi, mor bwysig.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys popeth y bydd ei angen arnoch i ddechrau arni - o Gwestiynau Cyffredin a deunydd gwefan i bostiadau cyfryngau cymdeithasol ac awgrymiadau am gynnwys. Byddai'n wych cael eich cefnogaeth.

## Ac mae ffyrdd eraill y gallwch ein cefnogi ni

Mae llawer o bethau y gallech eu gwneud i helpu i gynyddu nifer y rhoddion rydym yn eu casglu bob blwyddyn.

Mae’r rhain yn cynnwys:

- Annog eich gweithwyr a rhwydweithiau rhanddeiliaid i gofrestru i ddod yn rhoddwyr gwaed, mêr esgyrn a phlatennau.
- Caniatáu i weithwyr roi gwaed yn ystod oriau gwaith, os gall eich busnes drefnu hyn.
- Cynnal digwyddiadau rhoi gwaed ar eich safle, neu'n lleol, i'n helpu i recriwtio mwy o roddwyr.

Gallech wneud gwahaniaeth enfawr drwy annog eich gweithwyr a'ch cysylltiadau i gyfrannu, drwy greu cyfleoedd i bobl gyfrannu yn eich sefydliad.

Mae alinio â Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ffordd wych o ddangos eich cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a chodi proffil eich sefydliad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y pecyn cymorth hwn neu os hoffech ddysgu rhagor am gynnal digwyddiad rhoi gwaed yn eich sefydliad, cysylltwch â **wbs.donorengagement@wales.nhs.uk**

Diolch am eich cefnogaeth,
**Gwasanaeth Gwaed Cymru.**

# Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

Rhoddion gwaed

## Pwy all roi gwaed?

Gall y rhan fwyaf o bobl roi gwaed, cyn belled â'u bod rhwng 17-66 oed pan fyddant yn ei roi am y tro cyntaf a bod eu hiechyd yn dda yn gyffredinol. Byddwn yn gwirio bob tro y bydd rhywun yn rhoi i sicrhau ei fod yn gymwys.

Gallwch wneud cwis cymhwyster sylfaenol neu ffoniwch 0800 252 266 am ragor o wybodaeth.

**Cwblhewch y cwis**

## Pa mor hir mae'n ei gymryd i roi gwaed?

Mae'r broses gyfan yn cymryd tua 45-60 munud. Yr amser y mae'n ei gymryd i roi gwaed mewn gwirionedd yw rhwng 5 a 10 munud.

## Ble gall ein myfyrwyr a'n staff roi gwaed?

Rydym yn gwneud ein gorau i ymweld â chymaint o leoliadau â phosibl ledled Cymru ac rydym yn diweddaru ein gwefan yn aml gyda lleoliadau apwyntiadau newydd.

Os oes gennych chi tua 200 o fyfyrwyr a staff ôl-16 ar y safle, efallai y byddwn ni'n gallu dod atoch chi. Cysylltwch â ni i ddysgu rhagor am gynnal sesiwn rhoi gwaed yn eich gweithle, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

**Cysylltu â ni**

# Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

Brwydro canser y gwaed

## Helpwch ni i ymladd yn erbyn canser y gwaed

Mae angen mwy o bobl ifanc 16 i 30 oed a rhwng 16 a 45 oed o gefndir Du, Asiaidd, cymysg neu leiafrifoedd ethnig i ymuno â ni yn y frwydr yn erbyn canser y gwaed.

Bob dydd, mae clinigwyr yn chwilio cofrestrfeydd mêr esgyrn ledled y byd, gan chwilio am yr un perffaith ar gyfer eu cleifion. Gall cleifion sydd angen trawsblaniad fod â lewcemia, lymffoma neu ganser neu anhwylder gwaed arall.

Ni fydd tri o bob deg claf canser y gwaed y mae angen trawsblaniad mêr esgyrn arnynt yn dod o hyd i fêr esgyrn addas, ac mae hyn yn cynyddu i saith o bob deg ar gyfer y rheini mewn cymunedau Du, Asiaidd, Lleiafrifol a Chymysg.

Po fwyaf yw'r gofrestr, y mwyaf yw'r tebygolrwydd o baru claf canser y gwaed â rhoddwr mêr esgyrn addas.

## Rhoi mêr esgyrn

Isod rydym wedi paratoi rhywfaint o wybodaeth i chi ei rhannu gyda'ch gweithwyr iau am roi mêr esgyrn. Mae croeso i chi newid yn ôl yr angen a rhannu'r deunydd hwn trwy e-bost neu ar fewnrwyd eich cwmni.

## Mae'n hawdd ymuno

Os ydych rhwng 16 a 30 oed, neu rhwng 16 a 45 oed o gefndir Du, Asiaidd, cymysg neu leiafrifoedd ethnig, mae dwy ffordd i ymuno; drwy roi sampl ychwanegol yn eich sesiwn rhoi gwaed nesaf neu ofyn am becyn swab am ddim ar-lein a'i ddychwelyd i Wasanaeth Gwaed Cymru.

Ar ôl i chi ymuno, byddwch yn aros ar y panel tan eich pen-blwydd yn 61 oed.

## Sut mae'n gweithio

Os cewch eich paru'n llwyddiannus, mae dwy ffordd y gallwch chi gyfrannu:

1. Trwy afferesis, rhodd bôn-gelloedd gwaed ymylol lle mae'ch gwaed yn cael ei brosesu trwy beiriant a'i roi yn ôl i chi.

2. Trwy rodd a wneir trwy asgwrn eich pelfis tra byddwch o dan anesthetig cyffredinol.

Bydd tîm Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gofalu amdanoch ac yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd. Am ragor o wybodaeth

**Ragor o wybodaeth**

# Deunydd templed mewnrwyd

## Deunydd mewnrwyd

Yma fe welwch chi gopi y gallwch chi ei bostio ar fewnrwyd eich sefydliad i annog eich myfyrwyr a'ch staff i gymryd rhan.

Mae croeso i chi addasu'r copi yn ôl yr angen ar gyfer eich myfyrwyr a'ch staff.

Mae **[enw'r ysgol/coleg]** yn ymuno â Gwasanaeth Gwaed Cymru i helpu i achub bywydau yng Nghymru, ac mae angen eich help arnom ni.

Oeddech chi'n gwybod y gall un rhodd o waed achub hyd at dri bywyd, ond dim ond tri y cant o'r boblogaeth gymwys sy'n rhoi gwaed?

Fel sefydliad o [nodwch nifer y gweithwyr], mae hynny'n golygu mai dim ond [lluosi nifer y gweithwyr â 0.03] ohonom sy'n rhoi gwaed ar hyn o bryd. Gyda'n gilydd, gallwn wella'r nifer hwn.

Mae angen 350 o roddion bob dydd ar ysbytai yng Nghymru i drin cleifion mewn angen. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn casglu tua 100,000 o roddion bob blwyddyn, ond mae angen i'r nifer hwnnw gynyddu er mwyn parhau i ateb y galw.

Dyma rai o'r pethau rydym yn eu gwneud i helpu Gwasanaeth Gwaed Cymru i recriwtio rhagor o roddwyr a chasglu rhagor o roddion achub bywyd yma yng Nghymru: **[dileer fel y bo'n briodol:**

- Eich annog i roi gwaed, os gallwch chi.
- Rhannu dyddiadau a lleoliadau sesiynau rhoi lleol.
- Gwneud amser i chi roi gwaed.
- Rhannu gwybodaeth am bwysigrwydd rhoi gwaed yn fewnol yma, a thrwy ein sianeli eraill.]

**[Rydym yn awgrymu ychwanegu dyfyniad sy'n ysbrydoli gan arweinydd ysgol/coleg yma i atgyfnerthu pwysigrwydd dod yn rhoddwr a sut mae hyn yn cyd-fynd â gwerthoedd eich cwmni.]**

Mae rhoi gwaed yn gyflym, yn hawdd ac yn achub bywydau. I gael rhagor o wybodaeth am roi gwaed, ac i ddod o hyd i sesiwn rhoi gwaed yn eich ardal chi, ewch i www.**gwaedcymru.org.uk**

# Deunydd Gwefan

# Deunydd Gwefan

Yma fe welwch ddeunydd ar gyfer eich gwefan, i roi gwybod i'ch cwsmeriaid a'ch rhwydweithiau beth rydych chi'n ei wneud i'n cefnogi. Mae croeso i chi addasu'r deunydd fel sy'n briodol ar gyfer eich sefydliad.

Os hoffech gefnogi asedau digidol fel delweddau neu logos i gyd-fynd â'r deunydd hwn, anfonwch e-bost atom yn **wbs.donorengagement@wales.nhs.uk.**

Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood System

A gaf i roi gwaed? | Storiau | Ynghylch rhoi gwaed | Cefnogi | Gwneud apwyntiad

**Rydym yn cydweithio â Gwasanaeth Gwaed Cymru i helpu i achub bywydau yng Nghymru.**

Oeddech chi'n gwybod y gall un rhodd o waed achub hyd at dri bywyd, ond dim ond tri y cant o'r boblogaeth gymwys sy'n rhoi gwaed?

Gallai unrhyw un fod angen rhodd o waed ar ryw adeg yn eu bywydau. Os nad ydych wedi derbyn rhodd o waed eich hun, mae'n debygol y byddwch yn adnabod rhywun sydd wedi cael trallwysiad neu a fydd angen trallwysiad yn y dyfodol.

Mae angen 350 o roddion bob dydd ar ysbytai yng Nghymru i drin cleifion mewn angen. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn casglu tua 100,000 o roddion bob blwyddyn, ond mae angen i'r nifer hwnnw gynyddu er mwyn parhau i ateb y galw.

Dyma rai o'r pethau rydym yn eu gwneud i helpu Gwasanaeth Gwaed Cymru i recriwtio rhagor o roddwyr a chasglu rhagor o roddion achub bywyd yma yng Nghymru: [dileer fel y bo'n briodol:

• Annog ein myfyrwyr a'n staff i roi gwaed, os ydynt yn gallu.
• Rhannu dyddiadau a lleoliadau sesiynau rhoi gwaed lleol gyda'n myfyrwyr a'n staff, a thrwy ein sianeli allanol.
• Gwneud amser i'n myfyrwyr a'n staff roi gwaed.
• Rhannu gwybodaeth am bwysigrwydd rhoi gwaed yn fewnol, a thrwy ein sianeli allanol.]

Mae rhoi gwaed yn gyflym, yn hawdd ac yn achub bywydau. I gael rhagor o wybodaeth am roi gwaed, ac i ddod o hyd i sesiwn rhoi gwaed yn eich ardal chi, ewch i www.**gwaedcymru.org.uk**

# Deunydd templed e-fwletin ar gyfer rhwydweithiau

# Deunydd e-bost

Yma, rydym wedi creu templed ar gyfer e-gylchlythyr i fynd allan i'ch rhwydweithiau i roi gwybod iddynt eich bod yn ein cefnogi, a'u hannog i'n cefnogi hefyd.

Os hoffech asedau digidol ategol megis delweddau neu logos i gyd-fynd â'r deunydd hwn, anfonwch e-bost atom yn **wbs.donorengagement@wales.nhs.uk.**

**Neges Newydd**

I

Pwnc **Ymunwch â ni i helpu i gynyddu nifer y rhoddion gwaed sy'n achub bywydau yng Nghymru.**

**Oeddech chi'n gwybod y gall un rhodd o waed achub hyd at dri bywyd, ond dim ond tri y cant o'r boblogaeth gymwys sy'n rhoi gwaed?**

Rydym yn lleoliad addysg sydd â [nodwch nifer y staff a'r myfyrwyr] o aelodau staff a myfyrwyr ôl-16, mae hynny'n golygu mai [lluoswch nifer y staff a'r myfyrwyr â 0.03] yn unig ohonom sy'n rhoi gwaed ar hyn o bryd. Gyda'n gilydd, gallwn wella'r nifer hwn.

Mae angen 350 o roddion bob dydd ar ysbytai yng Nghymru i drin cleifion mewn angen. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn casglu tua 100,000 o roddion bob blwyddyn, ond mae angen i'r nifer hwnnw gynyddu er mwyn parhau i ateb y galw.

Dyna pam rydym yn ymuno â Gwasanaeth Gwaed Cymru i helpu i gynyddu nifer y rhoddwyr gwaed yma yng Nghymru, ac rydym yn gofyn ichi ymuno â ni.

Mae pethau syml y gallwn ni i gyd eu gwneud i helpu, fel

- Annog ein myfyrwyr a'n staff i roi gwaed, os ydynt yn gallu.
- Rhannu dyddiadau a lleoliadau sesiynau rhoi gwaed lleol gyda'n myfyrwyr a'n staff, a thrwy ein sianeli allanol.
- Gwneud amser i'n myfyrwyr a'n staff roi gwaed yn ystod oriau gwaith.
- Rhannu gwybodaeth am bwysigrwydd rhoi gwaed yn fewnol, a thrwy ein sianeli allanol.

Mae rhoi gwaed yn gyflym, yn hawdd ac yn achub bywydau. I gael rhagor o wybodaeth am roi gwaed, a sut y gallwch chi helpu i gynyddu nifer y rhoddwyr gwaed a rhoddion gwaed yng Nghymru, ewch i **www.gwaedcymru.org.uk**

Anfon Cadw Canslo

# Deunydd templed postiadau cyfryngau cymdeithasol

## Deunydd postiadau cymdeithasol

Rydyn ni wedi creu postiadau cyfryngau cymdeithasol templed i'w gwneud hi'n hawdd i chi hyrwyddo'ch cefnogaeth ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac annog eich dilynwyr i gymryd rhan.

Byddem wrth ein bodd yn gweld eich postiadau. Mae ein dolenni isod, mae croeso i chi ein tagio yn eich postiadau.

**Cysylltwch â ni i greu eich dolen bwrpasol eich hun fel y gallwn olrhain a rhoi adborth ar eich llwyddiant.**

**@GwaedCymru** (X)

**@GwaedCymru** (Facebook)

**@GwasanaethGwaedCymru** (Instagram)

**@WelshBloodService** (LinkedIn)



Wyddoch chi y gallai un rhodd gwaed arbed hyd at dri bywyd? 👫


Rydym yn ymuno â Gwasanaeth Gwaed Cymru i helpu i gynyddu rhoddion gwaed yng Nghymru. Canfyddwch beth allwch chi ei wneud i helpu
👉 wbs.cymru/GwaedIfancAp



📢 Mae angen 350 o roddion gwaed y dydd ar ysbytai Cymru i drin cleifion mewn angen.

📢 Mae'n hanfodol bod gan Gymru ddigon o roddion er mwyn parhau i ateb y galw. Dyna pam rydyn ni'n gofyn i'n staff ddod yn rhoddwyr gwaed.

👉 wbs.cymru/GwaedIfancAp



Dim ond tri y cant o'r boblogaeth gymwys sy'n rhoi gwaed!

Mae hynny'n golygu y gallai unrhyw un ohonom fod wedi derbyn rhodd gwaed eisoes, neu efallai y bydd angen un arnom yn y dyfodol.

Helpwch ni i wneud yn siŵr bod gan Gymru'r rhoddion sydd eu hangen arni i achub bywydau.

👉 wbs.cymru/GwaedIfancAp



Mae angen mwy o bobl ifanc 16 i 30 oed a rhwng 16 a 45 oed o gefndir Du, Asiaidd, cymysg neu leiafrifoedd ethnig i ymuno â ni yn y frwydr yn erbyn canser y gwaed

Mae ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn gam cyntaf tuag at achub bywyd claf sydd angen trawsblaniad mêr esgyrn

💪♥ Darganfyddwch sut y gallwch ein cefnogi wbs.cymru/GwaedIfancME

# Syniadau am gynnwys cyfryngau cymdeithasol

## Syniadau ar gyfer cynnwys i'w gyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol ac yn fewnol

Yma rydym wedi cynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer cynnwys i'w gyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol ac yn fewnol y gallech ei greu ar gyfer eich sianeli, i fynegi eich cefnogaeth ac annog eraill i roi gwaed gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru.

### 'Rydym yn helpu Gwasanaeth Gwaed Cymru i achub bywydau yng Nghymru'

Graffeg gymdeithasol syml wedi'i chreu yn arddull eich brand y gellir ei gwneud gan ddefnyddio Canva neu feddalwedd tebyg.



### 'Rwy'n rhoi oherwydd...'

Fideo Vox pop yn cynnwys eich myfyrwyr a'ch staff, yn siarad am pam maen nhw'n rhoi gwaed, platennau, neu fêr esgyrn.



### Dyddiaduron rhoddion

Gofynnwch i rai o'ch myfyrwyr a'ch staff ffilmio fideo byr yn dogfennu'r broses o roi gwaed – o ddewis gwisg gyda llewys llac a sicrhau eu bod nhw'n cael digon i'w fwyta a'i yfed ymlaen llaw, i fynd i'r sesiwn rhoi gwaed a siarad am sut maen nhw'n teimlo ar ôl rhoi gwaed.



## SMS a Chylchlythyr

Os oes gennych restr o rieni a/neu staff sydd wedi cofrestru ar gyfer negeseuon, e-byst neu gylchlythyrau wythnosol,, testun a rhybuddion, neu sgwrs grŵp, gallech ddefnyddio'r copi hwn a awgrymir i roi gwybod iddynt am sesiynau rhoi gwaed lleol a pham ei bod yn bwysig rhoi gwaed.
Gallwch bersonoli'r negeseuon testun canlynol i gynnwys gwybodaeth berthnasol, fel y sesiwn rhoi gwaed nesaf yn eich tref.

I ddod o hyd i sesiynau rhoi gwaed lleol sydd i ddod, gallwch fynd i [www.wbs.cymru/GwaedIfancAp](www.wbs.cymru/GwaedIfancAp)

@WelshBloodService

@GwaedCymru

@GwaedCymru

@ GwasanaethGwaedCymru

@WelshBloodService

### SMS / Sgyrsiau grŵp







### E-byst neu gylchlythyrau wythnosol


Copïwch a gludwch y negeseuon hyn i'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol a'u llwytho i fyny gydag un o'r lluniau sydd wedi cael eu darparu.

Mae angen 350 o roddion gwaed y dydd ar ysbytai yng Nghymru. Er mwyn helpu Gwasanaeth Gwaed Cymru i gyrraedd eu targed, mae ein hysgol yn cefnogi eu hymgyrch #GwaedIfanc drwy annog ein myfyrwyr, staff a rhieni i roi gwaed a helpu i achub bywydau ar draws Cymru. Am fwy o wybodaeth ewch i'w gwefan www.welsh-blood.org.uk

A all ein myfyrwyr, staff a'n rhieni helpu Gwasanaeth Gwaed Cymru drwy ddod yn rhoddwr gwaed sy'n achub bywydau? Os ydych chi rhwng 17 a 66 oed, efallai y byddwch yn gymwys! Gallwch ddysgu mwy yma: wbs.cymru/YSGOL/COLEGDOLEN

Dim ond un rhoddwr mae'n ei gymryd i newid bywyd claf trwy drawsblaniad mêr esgyrn. Ydych chi rhwng 16 a 30 oed ode neu 16-45 oed o gefndir Du, Asiaidd, cymysg neu gymuned ethnig leiafrifol? Ymunwch â YSGOL/COLEG ENW & @GwaedCymru yn ein brwydr yn erbyn canser y gwaed, a chofrestru ar gyfer Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru. Am ragor o wybodaeth ewch i https://www.wbs.cymru/GwaedIfancME






# Gynnal eich sesiwn rhoi gwaed eich hun

# A allech chi gynnal eich sesiwn rhoi gwaed eich hun?

Mae ein siart llif hawdd i'w ddilyn yn dangos i chi sut y gall eich ysgol/coleg gefnogi rhoddion gwaed

Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

A oes gan eich ysgol/coleg 200 o weithwyr ar y safle?

OES | NAC OES

Oes gan eich ysgol/coleg ystafell, neuadd neu faes parcio mawr ar gael i gynnal sesiwn roi gwaed?

OES | NAC OES

A all eich ysgol/coleg sbario o leiaf dri diwrnod bob blwyddyn i gefnogi Gwasanaeth Gwaed Cymru?

OES | NAC OES

Mae eich ysgol/coleg yn dal i allu cynnig cymorth i gleifion sydd mewn angen ar draws Cymru yn y ffyrdd canlynol:

- Mynychu a rhoi cyhoeddusrwydd i sesiynau rhoi gwaed lleol gyda staff a rhanddeiliaid.
- Gofyn am ymweliad 'pecyn swab' gan Wasanaeth Gwaed Cymru i annog staff rhwng 16 a 30 neu 16-45 oed o gefndir Du, Asiaidd, cymysg neu leiafrifoedd ethnig, i ymuno â chofrestr bôn-gelloedd Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Mae'n bosib y byddwch yn gymwys i gynnal eich sesiynau rhoi gwaed eich hun.

Cysylltwch â **wbs.communitypartnership@wales.nhs.uk**

# Diolch

Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y pecyn cymorth hwn, cysylltwch â **wbs.donorengagement@wales.nhs.uk**

# Cwestiynau Cyffredin

## Beth ddylwn ei fwyta a'i yfed cyn rhoi gwaed?

Rydym yn argymell bwyta ac yfed yn rheolaidd cyn rhoi gwaed i gadw lefelau siwgr yn y gwaed yn sefydlog. Yna y darn gorau! Ar ôl rhoi, byddwn yn darparu danteithion blasus a diod i'ch helpu i ailgyflenwi'r hylifau a gollwyd wrth roi gwaed.

## Beth ddylai rhoddwyr ei wisgo i roi gwaed?

Bydd angen mynediad hawdd i'r gwythiennau yn eich braich, felly rydym yn argymell eich bod yn gwisgo rhywbeth cyfforddus gyda llewys rhydd i roi gwaed fel ei bod yn hawdd torchi'ch llawes uwchlaw eich penelin.

## Beth yw platennau a sut rydych chi'n eu rhoi?

Celloedd bach iawn yn eich gwaed yw platennau sy'n ffurfio ceuladau ac maent yn hanfodol er mwyn helpu cleifion i frwydro yn erbyn clefydau cronig, canserau a gwella ar ôl anafiadau trawmatig. Mae rhoi platennau yn cymryd hyd at 90 munud.

Mae gwaed yn cael ei dynnu trwy nodwydd a'i drosglwyddo i beiriant arbenigol sy'n gwahanu'r platennau oddi wrth eich gwaed, cyn dychwelyd y gwaed yn ôl atoch yn ddiogel. Fel rhoddwr platennau, gallwch gyfrannu bob pedair wythnos..

## A yw'n iawn gwneud ymarfer corff cyn rhoi gwaed?

Rydym yn argymell osgoi unrhyw weithgaredd egnïol cyn ac ar ôl rhoi gwaed. Mae ymarfer corff ysgafn fel cerdded yn iawn - ond cofiwch sicrhau eich bod wedi’ch hydradu.

## Faint o waed fydd rhoddwr yn ei roi?

Fel arfer rydym yn cymryd ychydig llai na pheint o waed (475ml) gyda samplau ychwanegol i'w profi.

# Cysylltiadau Defnyddiol

Gwnewch Waed yn Fusnes i Chi

Cwis cymhwysedd rhoi gwaed

Archebwch rodd achub bywyd

Beth i’w ddisgwyl pan rydych chi’n rhoi gwaed

Ynglŷn â rhoi:

- Gwaed
- Platennau
- Mêr esgyrn